

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi Cymorth Cyntaf Corfforaethol

Fersiwn 1.0 Awst 2016

Am y polisi hwn

Yn un â Rheoliad 3(1) y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981, mae dyletswydd ar bob cyflogwr i wneud darpariaeth ar gyfer cymorth cyntaf. Mae'r math o ddarpariaeth yn dibynnu ar amryfal ffactorau. Bydd angen darpariaethau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o waith. Bydd y risgiau yn weddol isel mewn rhai sefydliadau fel swyddfeydd a llyfrgelloedd, tra bydd mwy o risg mewn mannau fel depos, gweithdai a chanolfannau hamdden ac ati. O'r herwydd, bydd raid i'r gofynion ar gyfer darpariaeth cymorth cyntaf gymryd i ystyriaeth y math o waith sy'n cael ei wneud.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Awst 2016	Diweddaru templed
	Awst 2017	Dim newidiadau
	Gorffennaf 2018	Dim newidiadau
	Awst 2019	Dim newidiadau
	Rhagfyr 2020	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Mehfin 2021
Cynhelir yr adolygiad gan:	Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Manylion cyswllt:

Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (lechyADiogelwch@ynysmon.gov.uk)

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

Cynnwys

RHAGARWEINIAD

Yn un â Rheoliad 3(1) y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981, mae dyletswydd ar bob cyflogwr i wneud darpariaeth ar gyfer cymorth cyntaf. Mae'r math o ddarpariaeth yn dibynnu ar amryfal ffactorau. Bydd angen darpariaethau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o waith. Bydd y risgiau yn weddol isel mewn rhai sefydliadau fel swyddfeydd a llyfrgelloedd, tra bydd mwy o risg mewn mannau fel depos, gweithdai a chanolfannau hamdden ac ati. O'r herwydd, bydd raid i'r gofynion ar gyfer darpariaeth cymorth cyntaf gymryd i ystyriaeth y math o waith sy'n cael ei wneud.

Offer a Chyfleusterau Cymorth Cyntaf

Mae'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar faint a math y cyfleusterau a'r offer cymorth cyntaf yn dibynnu ar amryfal ffactorau:

- Y math o waith a wneir
- Argaeledd cymorth cyntaf
- Gweithwyr sy'n gweithio y tu allan i adeilad y cyflogwr
- Darpariaeth i bobl ac eithrio gweithwyr

Ystafelloedd Cymorth Cyntaf

Yn achos nifer o sefydliadau, ee, canolfannau hamdden, oherwydd natur y gwaith a wneir a'r risg uchel sy'n gysylltiedig â rhai agweddau, efallai y bydd angen ystafell Cymorth Cyntaf.

Bocsys Cymorth Cyntaf

Dylai cymorth cyntaf fod ar gael yn rhwydd i bob gweithiwr a bydd raid i bob sefydliad fod gydag o leiaf un bocsys cymorth cyntaf wedi ei roi mewn lle amlwg y mae'n hawdd cael ato. Dylai pob swyddog cymorth cyntaf fedru cael at y bocsys cymorth cyntaf a Rheolwr pob sefydliad fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cyflenwad digonol ac addas o bethau ynddo.

Prif Swyddfeydd

Ym mhrif swyddfeydd y Cyngor penderfynwyd mai'r ffordd orau o ddarparu'r offer oedd rhoi bocsys cymorth cyntaf cludadwy i bob swyddog cymorth cyntaf – bocsys a fydd yn cynnwys yr eitemau a nodir isod:

Cynnwys:

20 x rhwymadau gludiog

6 x pinnau cau

1 x rhwymyn trionglog

1 x pad llygad

3 x rhwymadau canolig (di-haint)

2 x rhwymadau mawr (di-haint)

10 x cadachau meddyginiaethol
2 x menyg di-haint

ON – cyfrifoldeb y swyddog cymorth cyntaf unigol yw sicrhau fod y bocs cymorth cyntaf cludadwy gyda chyflenwad digonol o'r uchod.

Pecynnau Cymorth Cyntaf Cludadwy

Oherwydd yr amrywiaeth o weithgareddau yn y gwahanol adrannau a natur beripatetig rhai agweddau ar y gwaith hwnnw, efallai y bydd rhaidil weithwyr mewn rhai amgylchiadau gael pecyn cymorth cyntaf ychwanegol yn dibynnu ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith a wneir.

Niferoedd Swyddogion Cymorth Cyntaf Tystysgrifedig

Mae Rheoliad 3(2) y rheoliadau uchod yn rhoi dyletswydd ar bob cyflogwr i ddarparu nifer ddigonol o bobl "addas" ar gyfer cymorth cyntaf. Mae "addas" yn golygu pobl sydd wedi derbyn tystysgrif ar ôl mynd i gwrs lechyd a Diogelwch cymwys.

Mae'n amhosib bod yn benodol ynghylch faint o swyddogion cymorth cyntaf y mae eu hangen fesul gweithwir. Rhaid cymryd yr holl ffactorau perthnasol i ystyriaeth. Mae hyn yn cynnwys dosbarthiad y gweithwyr o fewn y sefydliad, natur y gwaith, maint a lleoliad y sefydliad a hefyd y pellter o wasanaethau meddygol allanol.

Mewn unrhyw waith, po fwyaf nifer y gweithwyr, mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn cael ei anafu neu'n mynd yn sâl, er na ddylid ystyried nifer y gweithwyr fel yr unig ffactor o ran penderfynu a oes angen swyddogion cymorth cyntaf ac os oes, faint. Mae rhai safonau wedi eu cynnwys yn y côd ymarfer cydnabyddedig fel a ganlyn:

Canllawiau ar Niferoedd

Mae'n rhaid i'r cyflogwr, o leiaf, darparu person penodedig ar gyfer pob adeg pan fydd pobl yn gweithio. Mae'r person penodedig yn rhywun a enwebwyd gan y cyflogwr i reoli mewn argyfwng (ee, galw ambiwlans) mewn amgylchiadau lle nad oes rhaid cael swyddog cymorth cyntaf oherwydd natur y gwaith (risg isel) a maint y sefydliad (llai na 50 o weithwyr).

Mewn sefyllfaoedd risg isel (ee, swyddfeydd, llyfrgelloedd) mae'n rhaid cael o leiaf un swyddog cymorth cyntaf ar gyfer pob 50 o weithwyr. O'r herwydd mae'n rhaid cael 2 ar gyfer 100 o weithwyr, a 3 ar gyfer 150 ac yn y blaen.

Mewn sefyllfaoedd risg uchel (ee, depos gwaith cynnal, gweithdai, cyfleusterau harbwr ac ati), mae'n rhaid cael o leiaf un swyddog cymorth cyntaf ar gyfer pob 50 gweithwyr, mae'r union nifer yn dibynnu ar faint y risg.

Yn absenoldeb swyddog cymorth cyntaf gellir enwebu person penodedig i ddelio gydag argyfwng cymorth cyntaf. Os yw'r person penodedig wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol gellir cynnig triniaeth cymorth cyntaf. Fodd bynnag, onid yw

wedi ei hyfforddi gellid delio gyda'r sefyllfa fel sy'n briodol, ee, trwy alw ambiwlans os oes rhaid.

ON Ni ddylai personau penodedig ond fod yn gyfrifol am gymorth cyntaf yn absenoldeb swyddogion cymorth cyntaf mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, megis salwch. Ni ystyrir bod absenoldebau y mae modd eu rhagweld fel gwyliau blynyddol yn amgylchiadau eithriadol yn hyn o beth.

Cymorth Cyntaf I Bobl ac Eithrio Gweithwyr

Nid yw'r rheoliadau ond yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflogwyr wneud darpariaeth cynorth cyntaf ar gyfer eu gweithwyr pan font yn eu gwaith. Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar y cyflogwr i gymryd i ystyriaeth bobl nad ydynt yn gweithio iddo (ee, ymwelwyr, preswylwyr cartrefi, disgyblion mewn ysgolion, cwsmeriaid mewn canolfannau hamdden ac ati).

Fodd bynnag, o gofio nifer y sefydliadau y mae'r cyhoedd yn ymweld â nhw a'r ffaith fod Cyngor Sir Ynys Môn yn gyflogwr doeth a gofalgwr, argymhellir y dylid sicrhau trefniadau digonol ar gyfer aelodau'r cyhoedd pan benderfynir ar nifer y swyddogion cymorth cyntaf y mae eu hangen i'r gweithwyr.

Mewn rhai achosion mae'r ddarpariaeth cymorth cyntaf ar gyfer pobl sydd ddim yn eu gwaith yn cael ei rheoli gan ddeddfwriaeth arall neu ganllawiau cydnabyddedig (ee, mae'r Swyddfa Gymreig wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch darparu cymorth cyntaf i ddisgyblion ysgol). Mae Adran Addysg Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynhyrchu canllawiau ychwanegol ac meant yn rhan o drefniadau'r Adran mewn perthynas â iechyd a diogelwch.

Argymhellir bod adrannau eraill yn nodi'n glir eu trefniadau mewn perthynas â darparu cymorth cyntaf o fewn eu polisiau iechyd a diogelwch unigol.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar estyniad 1248 752820.